# SL(5)655 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

O dan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyflwyno hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig i bobl sy'n atebol am gyfraddau annomestig.

Ar hyn o bryd mae cynnwys hysbysiadau galw am dalu yn cael eu pennu gan :Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"). Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau 2017. Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 62 a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988).

Yr unig newid a wneir gan y Rheoliadau yw Atodlen 2 i Reoliadau 2017, sy'n pennu cynnwys y nodiadau esboniadol y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda'r hysbysiadau galw am dalu a roddir i drethdalwyr i'w helpu i ddeall eu biliau ardrethi. Mae'r newid yn sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol yn cael ei dileu yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (pan fydd y drefn Cymorth Gwladwriaethol yn peidio â bod yn berthnasol i'r DU).

Bydd y Rheoliadau'n berthnasol i hysbysiadau galw am dalu a gyflwynir mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er y nodir y caiff y paragraff â'r teitl "Cymorth gwladwriaethol" ei hepgor o'r Nodiadau Esboniadol a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2017, nid yw'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn egluro'r hyn a gynigir i ddisodli'r wybodaeth hon, o ran unrhyw drefn cymorth gwladwriaethol a allai fod ar waith ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a chwblhau unrhyw gyfnod pontio. Gallai cael gwybodaeth o'r fath ymlaen llaw fod o gymorth i dalwyr ardrethi annomestig.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Tachwedd 2020**